# MYNEDIAD AT GYLLID I FYFYRWYR TRA YN Y CARCHAR (CMC) – BA 25/26

cyllid myfyrwyr cymru
student finance wales

## CYMHWYSTER:
## A allaf gael cyllid i fyfyrwyr?

Yn gyffredinol, bydd angen i chi fodloni meini prawf penodol er mwyn bod yn gymwys i gael cymorth ariannol gan CMC:

- Statws wedi setlo – gallu byw yn y Deyrnas Unedig heb unrhyw gyfyngiad gan y Swyddfa GartrefOrdinarily resident in Wales on the first day of the first academic year of your course
- Yn preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs
- Wedi bod yn byw yn y DU yn y tair blynedd yn union cyn y dyddiad hwn (myfyrwyr 'Cartref' y DU a Gweddill y Byd)
- Wedi awdurdodi gan Lywodraethwr neu Gyfarwyddwr y carchar neu awdurdod priodol arall i astudio'r cwrs rhan-amser presennol

Efallai y byddwch hefyd yn gymwys o dan gategorïau preswylio eraill. Am ragor o wybodaeth siaradwch â Chydlynydd Addysg eich Carchar.

Rhaid i garcharorion fod yn bwrw dedfryd o garchar yn y Deyrnas Unedig, (yn dechrau cwrs israddedig (UG) ar neu ar ôl 1 Medi 2012, neu'n dechrau cwrs Meistr ôl-raddedig (PG) ar neu ar ôl 1 Awst 2017, neu'n dechrau ar gwrs doethuriaeth PG ar neu ar ôl 1 Awst 2018) a bod o fewn:

**UG** – 6 mlynedd o'ch dyddiad rhyddhau cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs cyfredol

**Meistr PG** – 4 blynedd o'ch dyddiad rhyddhau cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs

**PG doethuriaeth** – 8 mlynedd o'ch dyddiad rhyddhau cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs

## HAWL:
## Pa fenthyciadau sydd ar gael i mi?

Wrth gyflawni eich dedfryd o garchar, dim ond os ydych chi'n astudio cwrs israddedig ac os ydych chi'n astudio cwrs ôl-raddedig rydych chi'n gymwys i wneud cais am Fenthyciad Ffioedd Dysgu, byddwch chi'n gymwys i wneud cais am fenthyciad PG a fydd wedi'i gapio ar uchafswm cost eich ffioedd dysgu. Mae hyn yn helpu talu cost eich cwrs ac rydym yn rhoi'r arian yn uniongyrchol i ddarparwr eich cwrs..

## PRYD I WNEUD CAIS?

Unwaith y byddwch wedi penderfynu pa gwrs rydych yn ei astudio ac wedi cofrestru eich diddordeb gyda'r darparwr dysgu, byddant yn anfon y ffurflen gais a pro fforma cyllid myfyriwr perthnasol atoch.

**Pro fforma:** Bydd y ffurflen hon yn cael ei chwblhau gan Gydlynydd Addysg eich Carchar ac yna ei llofnodi gan Lywodraethwr eich Carchar.

**Ffurflen cais am gyllid i fyfyrwyr:** Bydd y ffurflen hon yn cael ei chwblhau'n rhannol gan eich darparwr dysgu cyn cael ei hanfon atoch i gwblhau'r gweddill. Cyfeiriwch at eich cydlynydd Addysg os oes angen cymorth arnoch gan nad oes angen llenwi pob adran.

### Pwyntiau allweddol:

Os nad ydych yn gwybod eich Cyfeirnod Cwsmer (CRN) gallwch ddiystyru'r maes hwn.

Bydd angen eich rhif Yswiriant Gwladol arnoch.

Nid oes angen manylion eich pasbort arnoch gan y bydd y ffurflen pro forma yn cadarnhau pwy ydych.

Pan ofynnir am fanylion cyswllt, bydd angen i chi roi cyfeiriad eich Carchar, ond nid oes angen e-bost na rhifau ffôn. Bydd angen i chi hefyd ddarparu pwynt cyswllt o fewn y Carchar, lle gofynnir am hynny.

Rhaid i chi gwblhau'r adran 'Astudiaeth Flaenorol' os yw'n berthnasol.

Nid oes angen i chi roi eich manylion banc i ni.

Sicrhewch eich bod yn darllen, yn deall, yn derbyn ac yn llofnodi telerau ac amodau'r benthyciad.

# AD-DALIADAU:

## Sut mae ad-daliadau'n gweithio?

Ni fydd eich cyfnod ad-dalu yn dechrau tan y mis Ebrill ar ôl i chi gwblhau neu dynnu'n ôl o'ch cwrs.

Os ydych yn astudio ar lefel israddedig, byddwch yn ad-dalu 9% o unrhyw incwm a enillwyd dros y trothwyon ad-dalu penodedig ac os ydych yn gyflogedig, gwneir y didyniadau hyn yn uniongyrchol o'ch cyflog drwy system dreth CThEF.

Ni fydd angen i chi ddechrau gwneud ad-daliadau nes eich bod yn ennill dros y trothwyon ad-dalu a osodwyd ar gyfer eich benthyciad, sef **£28,470** y **flwyddyn (gros)** neu'r ad-daliadau **wythnosol (£547) neu fisol (£2,372)** cyfwerth ar gyfer ad-daliadau Cynllun 2 blwyddyn ariannol 2025-26. Gall y rhain newid.

Os ydych yn astudio ar lefel PG, byddwch yn ad-dalu 6% o unrhyw incwm a enillwyd dros £21,000 y flwyddyn neu'r hyn sy'n cyfateb yn wythnosol (£403) neu'n fisol (£1,750). Gall y rhain newid.

**Enghraifft o swm ad-dalu UG Cynllun 2 ar gyfer blwyddyn ariannol 25/26, yn seiliedig ar incwm:**

| Incwm Blynyddol Gros | Bydd 9% yn cael ei dynnu o | Amcangyfrif o'r Ad-daliad Misol |
|---|---|---|
| £28,470 | £0 | £0 |
| £30,000 | £2,500 | £11 |
| £35,000 | £2,916 | £48 |

Os bydd eich incwm yn disgyn o dan y trothwy ad-dalu a osodwyd, yna bydd eich ad-daliadau yn dod i ben.

Mae llog a gymhwysir i'r balans sy'n weddill yn gysylltiedig â chwyddiant; defnyddir y Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI). Mae llog yn cael ei gronni ar y benthyciad o'r adeg y gwneir

y taliad cyntaf, nes bod y benthyciad wedi'i dalu'n llawn

Bydd unrhyw falans benthyciad sy'n weddill yn cael ei ddileu 30 mlynedd ar ôl dechrau'r ad-daliad (Cynllun 2).

*Mae Cynllun 2 yn cyfeirio at fenthyciadau myfyrwyr ar gyfer cynhaliaeth a ffioedd dysgu a gymerwyd gan fenthycwyr o Gymru ar gyfer cyrsiau AU ac AB ar neu ar ôl 1 Medi 2012.

Bydd myfyrwyr sy'n parhau yn aros ar eu cynlluniau ad-dalu presennol ac os yw'r myfyriwr wedi astudio cyrsiau israddedig ac ôl-raddedig, bydd ad-daliadau ar gyfer pob un yn aros ar wahân.

## Pa gyllid sydd ar gael ar ôl rhyddhau? Pa gyllid sydd ar gael ar ôl rhyddhau?

Ar ôl eu rhyddhau, bydd cyn-garcharorion yn cael eu hasesu yn yr un ffordd â rhywun nad yw'n garcharor sy'n golygu y gallech fod â hawl i'r canlynol os ydych yn astudio cwrs israddedig:

- Ffioedd Dysgu
- Cefnogaeth Cynhaliaeth**
- Lwfans Myfyrwyr Anabl, (os yw'n berthnasol)
- Grantiau i Ddibynyddion (os yw'n berthnasol) – fel Grantiau Gofal Plant, Lwfans Dysgu Rhieni a Lwfans Oedolyn Dibynnol
- Cymorth Bwrsariaeth y GIG (nyrsio, bydwreigiaeth newydd a pharhaus sy'n hanu o'r DU, a llawer o Fyfyrwyr perthynol i iechyd sy'n dilyn cyrsiau cyn-gofrestru mewn prifysgolion yn Lloegr)

**Os ydych i fod i gael eich rhyddhau ar ganol y cwrs yn ystod y flwyddyn academaidd, ar ôl eich rhyddhau gallwch wneud cais am Fenthyciad Cynhaliaeth. Dim ond ar ôl i chi gael eich rhyddhau y gellir gwneud cais am hwn. Os yn llwyddiannus, bydd hwn yn cael ei gyfrifo pro-rata a'i dalu i'ch cyfrif banc unwaith y bydd eich sefydliad addysgol yn cadarnhau eich bod yn ôl yn astudio.

Sylwch, os ydych yn gwneud cais am gyllid ar ganol y cwrs, mae'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr angen copïau o'ch dogfennau rhyddhau gan y Carchar, yn cadarnhau'r dyddiad y gadawsoch y carchar.